

Fideo lansiad: Ddigwyddiadau mewnwelediad polisi

Prynhawn da.

Rwy'n ymuno gyda chi heddiw i helpu i lansio math newydd o adnoddau dysgu proffesiynol er mwyn rhoi dechrau da i'n cwricwlwm newydd.

Mae cydweithwyr – gan gynnwys llawer o'ch plith, rwy'n siŵr - a chonsortia o bob rhan o Gymru eisoes wedi dod â'r adnoddau 'Taith Dysgu Proffesiynol' yn fyw.

Mae'n gwefan Taith Dysgu Proffesiynol, a lansiwyd yn yr haf, yn cynnig adnoddau a dulliau gweithredu pwrpasol i gefnogi pwyntiau allweddol yn eich dysgu. Heddiw, gallwch weld yr adnoddau hyn dros eich hun, yn y cyntaf o'n 'Mewnwelediadau Polisi' byr ar gyfer ysgolion yr hydref hwn.

Nid yw hyn yn cymryd lle'r diwrnod HMS dysgu proffesiynol penodedig a gynlluniwyd gennym ar gyfer mis Mehefin/Gorffennaf, ond mae'n ddatblygiad cadarnhaol iawn.

Mae Covid wedi ein taro mewn sawl ffordd wrth gwrs, a gwn fod yn rhaid i lansiad cadarnhaol fel hwn gael ei weld yng nghyd-destun y cyfnod sydd ohoni, wrth i chi weithio mor galed i gadw ysgolion yn ddiogel ac yn agored. Rwy' am ichi wybod fy mod yn deall hynny, felly wrth sôn am ein 'Mewnwelediadau Polisi' newydd heddiw, rwy'n sylweddoli bod angen manteisio arnynt pan fydd yr amgylchiadau yn caniatáu.

Bydd 'Mewnwelediadau Polisi' yn y dyfodol yn rhannu profiadau ysgolion ar wahanol gamau o'u taith dysgu - y model 'Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu', Addysgeg a'r Adnodd Gwella a Gwerthuso Cenedlaethol. Byddant ar gael yn fyw yn Hwb, ac fel recordiadau digidol y gallwch eu defnyddio unrhyw bryd, gan gynnig yr hyblygrwydd sydd ei angen arnom i gyd yn awr.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, cefais fy nghalonogi gan barodrwydd ein proffesiwn i rannu profiadau'n agored er budd eraill, drwy ein rhestrau chwarae Covid-19 ar Hwb.

Mae'r cyfweiliadau gonest gyda phenaethiaid yn siarad am eu cynlluniau ar gyfer dysgu o bell, ailagor fesul cam a dysgu proffesiynol, lle bo hynny'n bosibl, wedi bod yn ysbrydoliaeth ac yn agoriad llygad. Mae penaethiaid hefyd wedi helpu i greu'r rhestrau chwarae diweddaraf ar Hwb sy'n cynnwys cynlluniau i recriwtio, adfer a chodi safonau, gyda'r cyllid a gyhoeddais ym mis Awst.

Gyfeillion, mae tymhorau anodd o'n blaenau ond mae eich gwaith mor bwysig i fywydau a dyfodol ein pobl ifanc.

Os gallwch neilltuo amser, os oes modd i chi gynllunio ar ei gyfer, defnyddiwch adnoddau'r Daith Dysgu Proffesiynol a'n 'Mewnwelediadau Polisi' byr i helpu i baratoi ar gyfer ein cwricwlwm newydd, a fydd yn rhoi cyfleoedd gwych i'n dysgwyr ac i chi.

Diolch.